YMWELIAD DATBLYGU MASNACH

# Singapôr

PRYD
**Tachwedd 19-23 2023**

SECTORAU ALLWEDDOL
**Bwyd a Diod**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## PAM SINGAPÔR?

Mae Singapôr yn mewnforio oddeutu 90% o'r bwyd a diod maen nhw'n ei yfed a'i fwyta yno, felly mae'n wlad sydd â photensial sylweddol ar gyfer allforion bwyd a diod Cymru!

Yn sgil ei berthynas cadarn gyda'r Deyrnas Unedig a gan ei fod yn rhan o'r Gymanwlad, maen nhw'n ymwybodol o gynnyrch Cymreig ac yn gwerthfawrogi bwyd a diwylliant Prydain.

Mae Singapôr yn borth i farchnadoedd eraill De-Ddwyrain Asia, a gyda thwf economaidd o 7.6% yn 2021 a CGD y pen yn gyfanswm o £58,725, mae gan y preswylwyr bŵer prynu uchel felly mae marchnad yno ar gyfer cynnyrch Cymreig artisan ac o'r radd flaenaf.

Fe ddylai Singapôr apelio i'r rheiny sy'n gwasanaethu Hong Kong neu farchnadoedd Dwyrain Pell Asia eisoes yn ogystal â'r rheiny sy'n awyddus i weithredu yno.

***Fe wyddom fod busnesau bwyd a diod Cymru yn gwerthu i'r marchnadoedd hyn eisoes ac maen nhw'n derbyn adborth cadarnhaol.***

## Y CATEGORÏAU GALLAI FOD FWYAF LLWYDDIANNUS?

Mae ein harbenigwyr marchnad o'r farn y gallai'r categorïau canlynol fod â photensial arbennig:

- Bwydydd o Safon
- Cig a Bwyd Môr
- Diodydd

**Os oes gennych chi'r cynnyrch hyn, hoffem siarad gyda chi!**

## BETH I'W DDISGWYL?

Bydd y canlynol ynghlwm ag Ymweliad Datblygu Masnach i Singapôr:

- Gweminar marchnad
- Ymgynghoriadau gydag ymgynghorydd sy'n rhan o'r farchnad
- Cenhadaeth fasnach i'r farchnad
- Teithio wedi'i drefnu, *bydd cost i gymryd rhan (mwyafswm o 2 gynrychiolydd o bob busnes)*
- Cyfarwyddyd ynghlwm â'r farchnad gyda siaradwyr allweddol
- Rhaglen ymweld â siopau
- Amserlen cyfarfodydd ynghlwm â'r farchnad gyda siaradwyr allweddol
- Gweithgaredd rhwydweithio
- Ymweliad i sioe fasnach briodol (os oes un ar ddyddiad cyfleus)
- Cymorth / cyfieithu ynghlwm â'r farchnad

## BETH YDY'R DYDDIADAU ALLWEDDOL?

Dyddiad cau ar gyfer ymgeisio: **Medi'r 8fed 2023**.

Cyfarfodydd rhithiol 1-i-1 gyda'r tîm farchnad penodedig yn ystod **yr wythnos sy'n dechrau ar Fedi'r 11eg**.

Bydd Cyfarwyddyd Marchnad rhithiol ar gychwyn mis **Tachwedd 2023**.

Bydd yr ymweliad wyneb yn wyneb rhwng **Tachwedd y 19eg a'r 23ain 2023**.

## PWY SY'N GYMWYS I FANTEISIO AR YR YMWELIAD DATBLYGU MASNACH HWN?

Gallai'r holl gynhyrchwyr Bwyd a Diod sy'n gweithredu yng Nghymru ymgeisio i fod yn rhan o'r Ymweliad Datblygu Masnach hwn.

## BETH YDY'R GOST?

Cost yr Ymweliad Datblygu Masnach hwn ydy **£1,800.00 heb gynnwys TAW**.

## SUT I YMGEISIO?

Dilynwch y ddolen hon i gwblhau'r ffurflen gais ar-lein:

https://kineticcubed.formstack.com/forms/food_and_drinks_wales_trade_development_visits_2023_24_singapore

WG48139 / © Hawlfraint y Goron 2023